# Teithio Llesol yng Nghymru Adroddiad Blynyddol

2023-2024



Bwrdd Teithio Llesol

# Cynnwys


3 Rhagair

4 Cyflwyniad

8 Data Allweddol

10 Gwella ein Rhwydwaith Teithio Llesol

18 Teithio Llesol i'r Ysgol

24 Teithio Llesol Bob Dydd

28 Cyfathrebu a Newid Ymddygiad

32 Ein Bwrdd Teithio Llesol

34 Argymhellion




*Dr Dafydd Trystan a Chris Boardman, Comisiynydd Teithio Llesol Lloegr, yn beicio o flaen Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd.*

# Rhagair

Rwy'n falch iawn o gyflwyno Adroddiad Teithio Llesol Cymru ar gyfer 2023/24. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn nodi'r angen am adroddiad blynyddol ar deithio llesol yng Nghymru, ac yn dilyn argymhelliad gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol, mae'r cyfrifoldeb dros gyhoeddi adroddiad o'r fath yn nwylo'r Bwrdd Teithio Llesol.

Gan mai hwn yw'r adroddiad cyntaf, mae'n waith sy'n esblygu (yn debyg iawn i deithio llesol yng Nghymru). Rydym yn ceisio tynnu sylw at y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf a'r meysydd hynny lle nad yw'r cynnydd wedi bod mor gyflym ag y byddem wedi dymuno. Rydym hefyd yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hynny o arfer da o bob cwr o'r wlad, fel y gall eraill, gobeithio, gael eu hysbrydoli gan yr astudiaethau achos hyn sy'n cyflawni'n llwyddiannus yn eu gwaith.

Tuag at ddiwedd y cyfnod 12 mis, penodwyd gweinidog trafnidiaeth newydd i fod yn gyfrifol am deithio llesol – Ken Skates AS. Fel Cadeirydd y Bwrdd, rwyf wedi cael cyfarfod cynhyrchiol iawn gydag Ysgrifennydd y Cabinet ac edrychaf ymlaen at wneud cynnydd pellach ar ein blaenoriaethau dros y blynyddoedd nesaf. Maent yn cynnwys sicrhau bod y buddsoddiant a wneir yn sicrhau canlyniadau clir a mesuradwy, ein bod yn cefnogi ac yn hyrwyddo cerdded ar gyfer teithiau byr ac ein bod yn sicrhau digon o gapasiti a gallu i gyflawni ein nodau uchelgeisiol ar draws y sector cyhoeddus, llywodraeth leol a Trafnidiaeth Cymru.

Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'r Gweinidog blaenorol, Lee Waters AS. Yr oedd yn hyrwyddwr gwirioneddol angerddol dros drafnidiaeth gynaliadwy ac mae'n drawiadol, wrth imi deithio'n rhyngwladol o fewn yr ynysoedd hyn a thu hwnt, fod ei waith ef a gwaith Llywodraeth Cymru ar deithio llesol yn cael ei gydnabod a'i ddathlu fel enghraifft o arfer da. Diolch am bopeth Lee.

Mae ein hadroddiad yn cyflwyno darlun cymysg. Rydym yn adrodd ar gynnydd sylweddol o ran buddsoddi mewn isadeiledd teithio llesol a chymorth i'r rhai sy'n dymuno teithio'n llesol –yn fwyaf amlwg o ran teithio llesol i'r ysgol. Ond mae'r newid ymddygiad rydym yn ei geisio – ac sy'n cael ei amlinellu fel uchelgais yn Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru – yn absennol i raddau helaeth yn y data sydd ar gael. Wrth i fwy o ddata gael ei gasglu a'i gyhoeddi (ac mae angen dybryd am hynny), dylem allu nodi ar lefel fwy penodol yr ymyriadau hynny sy'n cael y llwyddiant mwyaf wrth sicrhau newid dull teithio.

Rydym wedi gosod yr uchelgais o fod yn genedl teithio llesol, ond hyd yn hyn mae'r cynnydd ar y daith honno wedi bod yn boenus o araf. Mawr obeithiaf y byddwn yn gallu adrodd ar gynnydd pendant yn y blynyddoedd i ddod, wedi'i wreiddio mewn ymchwil arloesol sy'n canolbwyntio ar bobl, ac sy'n defnyddio buddsoddiad mewn ffordd sy'n esgor ar lefelau uwch o deithio llesol.

Os hoffech awgrymu themâu neu astudiaethau ar gyfer adroddiadau'r dyfodol, mae croeso i chi rannu eich barn â Bwrdd Teithio Llesol Cymru.

**Dr Dafydd Trystan**
**Cadeirydd**
**Bwrdd Teithio Llesol Cymru**

# Cyflwyniad

**Mae Bwrdd Teithio Llesol Cymru yn cynnig llais annibynnol sy'n craffu ar effeithiolrwydd mesurau Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â theithio llesol, gan gynnwys eu partneriaid ac asiantaethau cyflawni y maent yn eu hariannu. Yn ein gwaith, rydym yn nodi themâu allweddol ym mholisi teithio llesol ac yn gwneud argymhellion i weinidogion a phartneriaid cyflawni ar sut i wella teithio llesol yng Nghymru**

Darllenwch fwy am bwy ydym ni a disgrifiad manwl o'n gwaith ar dudalen 32.



## Beth yw Teithio Llesol?

Defnyddir y term 'Teithio Llesol' i ddisgrifio cerdded, olwyno neu feicio ar gyfer teithiau pwrpasol i gyrchfan, ar liwt eich hun neu ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'n cynnwys teithiau, er enghraifft, i'r ysgol neu i'r gwaith, yn hytrach na theithiau am resymau hamdden, er pleser neu ar gyfer eich iechyd yn unig. Yn aml dyma'r math rhataf a mwyaf gwyrdd i deithio.

## Manteision Teithio Llesol

Gwyddom fod Teithio Llesol yn cyfrannu at ddatblygu gwell iechyd, mwy o gydraddoldeb, gostyngiad mewn allyriadau carbon a thagfeydd, mwy o ryngweithio cymdeithasol a mwy o gydlyniant cymunedol. Mae cerdded, olwyno neu feicio yn lle gyrru unwaith neu ddwywaith yr wythnos yn dal i ddod â manteision iechyd ac amgylcheddol.

### Iechyd

Amcangyfrifir bod gordewdra yn costio £73 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru. Mae tystiolaeth nifer amrywiol o astudiaethau poblogaeth hydredol y DU yn dweud bod teithio llesol yn helpu i gynnal a gwella iechyd corfforol a meddyliol drwy gydol ein bywydau, gydag adroddiad Sefydliad Iechyd y Byd 2022 yn cyfeirio at:

- gostyngiad o 30% mewn Diabetes math 2
- gostyngiad o 10% mewn clefyd cardiofasgwlaidd.

### Economi

Mae bron i 20% o aelwydydd yng Nghymru heb fynediad at gar. Mae 59% o bobl anabl yn y DU wedi lleihau eu teithio angenrheidiol, oherwydd yr argyfwng costau byw, gyda'r gost o redeg car yn mynd yn anfforddiadwy i ystod o bobl,[1] gan eu rhoi mewn perygl o dlodi trafnidiaeth.

Gall teithio llesol hefyd hybu twf economaidd, gan gynnwys cynnydd o 30% mewn gwariant manwerthu lleol.

### Amgylchedd

Daw 17% o holl allyriadau carbon Cymru o drafnidiaeth. Byddai mwy o deithio llesol yn lle'r defnydd o geir preifat yn chwarae rhan hanfodol wrth i Gymru ddod yn garbon sero-net erbyn 2050.

### Lles

Mae llwybrau teithio llesol yn aml yn cynyddu rhyngweithio cymdeithasol ac ymgysylltu ymhlith preswylwyr, gan arwain at welliannau nodedig mewn lles cyffredinol a chysylltedd cymdeithasol oherwydd bod ganddynt fwy o gyfleoedd i ryngweithio a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Dyna pam - i lawer o wledydd, gan gynnwys Cymru – mae mesurau teithio llesol yn aml yn rhan o strategaeth ehangach sy'n ymwneud ag iechyd a newid hinsawdd yn ogystal â thrafnidiaeth. Er enghraifft, roedd diwygiadau 2023/24 i Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – sy'n Ddeddf bellach - osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol i hyrwyddo teithio llesol mewn perthynas ag ansawdd aer, ac adrodd yn ôl bob tair blynedd.

Ar hyn o bryd mae lefelau teithio llesol yng Nghymru yn isel o'i gymharu â gwledydd eraill yn Ewrop (fel yr Iseldiroedd a Denmarc), ond mae'n flaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru sy'n bodloni pob un o'r saith nod llesiant yng Nghymru,[2] o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â phrif strategaethau eraill.

## Ein Deddfwriaeth Arloesol

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i hyrwyddo teithio llesol a gwella ei ddarpariaeth yn barhaus trwy sicrhau llwybrau teithio llesol newydd neu well a chyfleusterau cysylltiedig. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol sy'n dangos llwybrau teithio llesol presennol, ochr yn ochr â llwybrau arfaethedig newydd.

| Llwybr Newydd Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 | Cynllun Cyflawni ar gyfer Trafnidiaeth Cenedlaethol 2022-2027 | Cynllun Cyflawni Teithio Llesol 2024-2027 |
|---|---|---|
| Mae'n nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer polisïau a rhaglenni trafnidiaeth yng Nghymru. | Mae'n nodi'r rhaglenni, y prosiectau a'r polisïau newydd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflawni i weithredu Llwybr Newydd. | Mae'n nodi'n fanylach sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu newid dull teithio drwy wneud teithio llesol yn haws i'w ddefnyddio, yn fwy deniadol ac yn fwy cynhwysol. |

Datblygwyd strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn 2021, ac fe'i gelwir yn Llwybr Newydd. Mae'n gosod targed cyffredinol y bydd 39% o holl deithiau erbyn 2030 ar ffurf teithio cynaliadwy, gan gynyddu i 45% erbyn 2040.

Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Trafnidiaeth Cenedlaethol yn mapio sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni'r targedau o fewn Llwybr Newydd, gan gyhoeddi wedi hynny'r Cynllun Cyflawni Teithio Llesol (2024-2027) (CCTLL) fis Mawrth 2024. Ei bwrpas yw manylu ar y gwaith sydd ei angen i gynyddu newid dull teithio yng Nghymru ac i wneud hynny'n deg ac yn gynhwysol.


Yr adroddiad blynyddol hwn bydd y cyfrwng allweddol wrth graffu ar y CCTLL dros y blynyddoedd nesaf.

Ar lefel genedlaethol, mae'r ewyllys gwleidyddol i gynyddu teithio llesol wedi bod yn uchel, gyda thystiolaeth o'r cynnydd sylweddol o ran dyrannu cyllid.

## Cyllid Teithio Llesol Y Pen 2019/20 – 2023/24

### Dyraniad & Gwariant

Llywodraeth Cymru




**Ffigurau y pen enghreifftiol ar draws Prydain Fawr**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru | £19 y pen | Llundain | £24 y pen |
| Lloegr | £12 y pen | Yr Alban | £38 y pen[3] |

Fe welwch fod Cymru wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer teithio llesol,[4] ond yr her i'r adroddiad hwn yw gallu llunio dyfarniad ynghylch pryd y bydd y buddsoddiad cynyddol yn arwain at ganlyniadau o ran lefelau sylweddol uwch o gerdded a beicio yng Nghymru.

Wedi'r cyfan, mae cyfanswm y buddsoddiad mewn teithio llesol ledled Cymru dros yr 20 mlynedd diwethaf o ddatganoli yn llai na'r swm y gwnaethom barhau i'w wario ar ymestyn 8 cilomedr o ffordd 'Blaenau'r Cymoedd' – yr A465 – sef tua £321mn.[5]

Ein gobaith yw, o 2024/25, y byddwn yn gallu gweld arwyddion o dwf sylweddol yn ein cerdded, olwyno a beicio bob dydd fel bod y mwyafrif ohonom yn cerdded o leiaf unwaith yr wythnos ac y gallwn hefyd weld twf yn ein beicio, lle mae un o bob deg ohonom yn dewis beicio bob wythnos.

## Data Allweddol

# Data Allweddol

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd da mewn teithio llesol yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig o ran lefelau buddsoddi (sydd bellach yn £19 y pen) ac yn ei chynllunio strategol (gan gyhoeddi ei Chynllun Cyflawni Teithio Llesol fis Mawrth 2024). Mae'r ewyllys gwleidyddol ar lefel genedlaethol yn gryf.

## Ond mae angen i ni newid gêr

Nid ydym eto wedi gweld effaith sylweddol, er yr amcangyfrifir bod dwy o bob tair o'n holl deithiau'n llai na phum milltir. Ymddengys nad oes unrhyw gynnydd sylweddol mewn teithio llesol ers 2013: sef blwyddyn y Ddeddf Teithio Llesol.

## Dyraniad Cyllid Teithio Llesol

Dros

**£72mn***

(*bron cynnydd 20% o 2022-23)

Gan gynnwys **£58mn** wedi'i ddyrannu i:

» **37** llwybr teithio llesol newydd a datblygiad manwl ar gyfer 22 llwybr ychwanegol

» **£3mn** i uwchraddio llwybrau cynradd ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

» **30** o gynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar draws 17 awdurdod lleol

**Y Rhwydwaith Presennol**

**3,129km**

Llwybrau Teithio Llesol

**Rhwydwaith y Dyfodol**

**7,491km**

Llwybrau Teithio Llesol

(gan gynnwys llwybrau presennol)

# Teithiau Teithio Llesol

**32%**
o deithiau
**Ar hyn o bryd**

**45%**
o deithiau
**2040 Targed**

Mae **48%** **o blant** fel arfer yn cerdded, olwyno neu feicio i'r ysgol gynradd

Mae **34%** **o bobl** ifanc fel arfer yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol uwchradd

## Cerdded Oedolion

**51%**
yn cerdded **o leiaf unwaith yr wythnos**
*(I lawr o 60% cyn y pandemig (2019-20))*

**17%**
yn cerdded **bob dydd**

**Ardaloedd Trefol**
**62%**
yn cerdded o leiaf **unwaith y mis**
*(64% yn 2021-22)*

**Ardaloedd Gwledig**
**52%**
yn cerdded o leiaf **unwaith y mis**
*(47% yn 2021-22)*

## Beicio Oedolion

**6%**
yn beicio **o leiaf unwaith yr wythnos**
*(Dim newid ers llynedd)*

**10%**
yn beicio **o leiaf unwaith y mis**

Dynion yn fwy tebygol o feicio (ac yn amlach) na menywod

*Data diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 & 2022/23*

## Iechyd

Unigolion iachach sy'n fwy tebygol o deithio'n llesol...

Llai tebygol o feicio

Yn fwy tebygol o feicio

| Salwch Cyfyngus Anabledd | Iechyd gwael / gwael iawn | Iechyd Gweddol | Iechyd da | Iechyd da iawn |
|---|---|---|---|---|
| 13% | | 15% | 18% | 19% |

**36%** yn cerdded o leiaf unwaith bob mis

**yn cerdded 10 munud + bob dydd**

# Gwella ein Rhwydwaith Teithio Llesol

## Cysylltu pobl â lle maen nhw'n caru a ble mae angen iddyn nhw fynd.

O fewn y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol mae ymrwymiadau allweddol i ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl gerdded, olwyno a beicio yng Nghymru, gan gynnwys:

- creu isadeiledd o ansawdd uchel sy'n gwella'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN), yn uwchraddio y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SNR) at ddibenion teithio llesol ac yn lleihau'r rhwystrau ffisegol i bawb gael eu defnyddio, gan gynnwys "pobl sydd â nodweddion gwarchodedig"
- cynnal o leiaf yr un lefelau o fuddsoddiad i awdurdodau lleol drwy'r Gronfa Teithio Llesol
- gwella Hyb Teithio Llesol Trafnidiaeth Cymru, yn benodol y sylfaen sgiliau a chapasiti mewn arbenigedd dylunio teithio llesol a'r gallu i reoli rhaglenni
- gwella mynediad at fframweithiau caffael ar gyfer teithio llesol
- gwella cyfleusterau teithio llesol mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus, gan ymgorffori opsiynau teithio llesol mewn cynllunwyr siwrnai, a gwella'r profiad o gario beiciau, sgwteri, pramiau ac ati.



Mae rhwydwaith teithio llesol gweithredol yn hanfodol er mwyn annog pobl yng Nghymru i deithio'n llesol. Mae angen llwybrau beicio o ansawdd uchel arnom sy'n gwahanu beiciau a cheir ar y ffyrdd, creu llwybrau newydd a chroesfannau gwell er mwyn gwneud cerdded ac olwyno yn fwy diogel, a gweithio'n agos ac yn gynhwysol gyda phobl drwy gydol y broses.

Dyma ffactor allweddol yn newisiadau pobl wrth deithio: gwnaeth arolwg o 1,300 o bobl ifanc yng Nghymru ym mis Hydref 2023 dynnu sylw at ddiffyg isadeiledd diogel, cyfleus ac atyniadol fel y prif reswm pam nad oeddent yn cerdded na beicio'n amlach.[6]

Mae ein Deddf Teithio Llesol fyd gyntaf yn chwarae rhan hanfodol yn hyn o beth, gan ei wneud yn ofynnol i bob un o'r 22 awdurdod lleol (ALlau) fapio rhwydweithiau cynhwysfawr o lwybrau teithio llesol ar hyd a lled Cymru, i'w gwella ac yna adrodd ar y cynnydd hyd yn hyn. Gall rai ymyriadau gynnwys croesfannau newydd i gerddwyr, cyrbau isel neu hyd yn oed meinciau.

Yn 2022/23, crëwyd 90 cilomedr o lwybrau, gan gynyddu'r rhwydwaith teithio llesol yng Nghymru i 3,129km. Mae hyn allan o 7,491km posibl (yn ôl mapio ein ALlau), sy'n golygu bod gan Gymru'r potensial i fwy na dyblu'r rhwydwaith dros y blynyddoedd nesaf.[7]

| | |
|---|---|
| 2020-2021: | 106km llwybrau newydd |
| 2021-2022: | 71km llwybrau newydd |
| 2022-2023: | 90km llwybrau newydd |

Wedi dweud hynny, yn seiliedig ar y cynnydd presennol, o fod wedi adeiladu 89km y flwyddyn ar gyfartaledd, y bydd yn cymryd bron i 50 mlynedd – tan 2073 – i gwblhau'r rhwydwaith. Mae angen mynd i'r afael â hyn.





## Buddsoddi yn y Rhwydwaith Teithio Llesol

Mae'r Gronfa Teithio Llesol yn annog awdurdodau lleol i ddatblygu prosiectau strategol a all drawsnewid ymddygiad teithio lleol, ac yn rhoi i bob awdurdod lleol dyraniad craidd gwerth £500,000 i wneud gwelliannau parhaus ar raddfa fach i lwybrau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r cyllid sy'n weddill ar gyfer cynlluniau mwy, gan gynnwys pontydd cerdded a beicio, i oresgyn rhwystrau sylweddol i deithio llesol.

Y llynedd, cafodd grantiau Cronfa Teithio Llesol a'r Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau y Llywodraeth eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2023, a oedd yn cyfrif am fwy na £58mn o'r dyraniad cyffredinol o £72.6mn, er mwyn darparu:

- 37 o lwybrau teithio llesol newydd a datblygiad manwl ar gyfer 22 llwybr ychwanegol
- £3mn i uwchraddio llwybrau cynradd ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol
- 30 o gynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar draws 17 o Awdurdodau Lleol.

## Brasamcan dyraniad cyllid yn ôl awrdurod lleol




Ym Mangor, Gwynedd, dechreuodd gwaith ar lwybr cyd-ddefnyddio gwerth £1.2mn, sydd ar Ffordd Penrhos, yn llwybr porth ac yn cynnwys croesfannau ffordd newydd gyda chyrbiau is a palmentydd cyffyrddol.

Yn Aberystwyth, dechreuodd gwaith adeiladu cam cyntaf y llwybr cyd-ddefnyddio newydd rhwng Aberystwyth a Bow Street, sy'n dechrau yn Waunfawr gyda chysylltiad uniongyrchol ag Ysgol Gynradd Comins Coch.

Yng Nghasnewydd, agorwyd yn swyddogol pont newydd, hygyrch yn yr orsaf reilffordd yn lle'r hen isffordd, gan wella cysylltiadau teithio llesol o ganol y ddinas i Devon Place.

Ger Pen-y-bont ar Ogwr, mae yna lwybr cyd-ddefnyddio newydd 440m o Ynysawdre i Goleg Cymunedol y Dderwen, sydd yn cysylltu dau lwybr teithio llesol presennol, a'r potensial, yn y dyfodol, i greu llwybr tuag at Afon Ogwr.

Yng Nghaerdydd, buddsoddwyd bron i £1.2mn i ymestyn llwybrau beicio ym Mharc y Rhath ac ar Heol Casnewydd.

O ran dyraniad, Sir Fynwy gafodd y swm mwyaf o gyllid, gwerth bron i £8mn, ar gyfer pecyn o fesurau yn Nhrefynwy, prosiect aml-flwyddyn i adeiladu pont teithio llesol ar draws Afon Wysg yn y Fenni, yn ogystal â chanolfan addysg â chysylltiadau canol dref yng Nghil-y-coed. (Noder: mae prosiect y Fenni yn brosiect parhaus na chafodd ei gyflawni yn 2023/24.)

Y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r rhwydwaith teithio llesol ymhen 15 mlynedd, ond gyda therfyn y prosiect – a chysylltedd o un pen i'r llall – i bob golwg degawdau i ffwrdd (amcangyfrifir 2073 yn ôl ein ffigurau ni) mae angen y stamina a'r ymrwymiad ar Lywodraeth Cymru i wneud y gwaith.

## Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

Mae bron i 60% o boblogaeth Cymru yn byw o fewn milltir i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN), sy'n rhychwantu pob un o'r 22 awdurdod lleol (ALI). Mae'n elfen hanfodol o'n Rhwydwaith Teithio Llesol, sy'n cael ei gynnal a'i wella gan ei warcheidwad yng Nghymru – Sustrans Cymru – ac yn aml mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

Ym mis Chwefror 2024, roeddem yn falch o weld gwerth yr NCN wedi'i fapio'n glir yn erbyn pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol yng Nghymru yn yr adroddiad Cerdded, Olwyno a Ffynnu: Lles a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru.

Er bod gwaith aruthrol wedi'i wneud yn 2023/2024 i wella rhannau o'r NCN, mae'n parhau i fod yn anghyflawn. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys gosod 10 o gytiau cynnal a chadw ac uwchraddio llwybrau fel Lon Las Cymru (NCN8) a Lon Las Ogwen (NCN82), ac ehangu llwybrau yn Llanhiledd (NCN466). Elwodd llwybrau eraill hefyd, gan gynnwys triniaeth Clefyd Coed Ynn, gwaith draenio, gwaith cadw llethrau, tynnu gwreiddiau coed, a gosod ffensys newydd, ymhlith ymyriadau eraill.

Rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r gwerthusiad o'r grant cyfalaf i Sustrans Cymru a chynnwys mesur pellach ar sut maent yn gwella'r NCN yn ogystal â chatalog cyfredol o allbynnau.



## Adeiladu Dyfodol Teithio Llesol Cynhwysol

Mae strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd dylunio isadeiledd sy'n diwallu anghenion amrywiol ac yn meithrin cyfranogiad teg mewn teithio llesol; mae hyn yn cynnwys cael gwared ar ataliadau fel gatiau mochyn (kissing gates) a rhwystrau igam-ogamu, gan eu bod yn creu rhwystrau sylweddol i bobl anabl.

Mae gwaith ar y gweill i gyflawni'r uchelgais hwn.

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi cynnal prosiect peilot yn ystod y cyfnod hwn i adolygu sampl o brosiectau'r Gronfa Teithio Llesol gyda'r amcan o nodi unrhyw faterion mynediad a chynhwysiant cyffredin y gellir eu rhannu ag awdurdodau lleol i lywio eu cynlluniau dylunio.

Rydym yn croesawu'r cydweithio rhwng Sustrans Cymru a'r Ganolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol (ATiC) ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mewn prosiect peilot gyda'r nod o wella ymgysylltu ag unigolion â rhyw fath o amhariad ar eu golwg. Gwerthusodd y fenter hon, a oedd yn cynnwys Vision Impaired West Glamorgan, fapiau cyffyrddol, gan gynnwys fersiynau 3D wedi'u hargraffu, yn seiliedig ar Ganllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a gall fod yn cefnogi mwy na 111,000 o bobl yng Nghymru sy'n byw gyda rhyw fath o amhariad ar eu golwg.

Mae adborth y prosiect yn awgrymu gall yr offer arwain at ddyluniadau trefol mwy cynhwysol a mwy diogel. Er bod y mapiau cyffyrddol hyn ar gael gan asiantaethau allanol am gost, rydym yn arbennig o falch o weld eu bod yn cael eu datblygu a'u gwerthu yma yng Nghymru.

Byddwn yn treulio amser penodol yn 2024/25 yn craffu'r maes yma yn ein Is-grŵp Teithio Llesol Cynhwysol.



### Llwybr blaenllaw Caerdydd yn derbyn cydnabyddiaeth ledled y DU

Cafodd llwybr blaenllaw 1.8 milltir o ganol y ddinas i ysbyty mwyaf Cymru sylw yn adroddiad blynyddol Sustrans Mynegai Cerdded a Beicio Caerdydd 2023 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024. Mae'n dangos yn dda iawn yr hyn y gellir ei gyflawni yng Nghymru pan fydd cyllid, sgiliau ac uchelgais yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae mwy o'r llwybrau hyn yn hanfodol os ydym am fod yn genedl teithio llesol.

## Pontio’r Bwlch Sgiliau a Chapasiti

Mae rhai awdurdodau lleol, medd rhai, yn gweld hi’n anodd i wneud cais am gyllid oherwydd prinder arbenigwyr mewn teithio llesol, sy’n arwain at gynnydd anwastad mewn teithio llesol ledled Cymru, gydag awdurdodau lleol uchelgeisiol fel Caerdydd yn camu ymlaen, tra bod eraill ar ei hôl hi.[8]

Mae mynd i’r afael â’r bwlch sgiliau hwn yn hanfodol.

Roeddem yn arbennig o falch o ddarllen cynllun busnes 2023/24 TrC, gydag ymrwymiadau i “ddatblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant amlddisgyblaethol ar gyfer ymarferwyr teithio llesol mewn awdurdodau lleol ac eraill yn y sector” a datblygu fframweithiau caffael “i gefnogi mynediad awdurdodau lleol at y gadwyn gyflenwi a sgiliau arbenigol”.

Sefydlodd TrC ei Swyddfa Ddylunio ei hun yn 2023/24 gyda’r nod o gefnogi ALlau a Llywodraeth Cymru i sefydlu a rhannu arfer gorau, yn ogystal ag ymgymryd â gwaith dylunio yn enwedig ar gyfer prosiectau mawr a chymhleth. Darparwyd sesiynau hyfforddi hefyd yn 2023/24 ar archwilio llwybrau sydd eisoes yn bodoli.

Datblygiad cadarnhaol arall fu twf, ym mis Tachwedd 2023, o dîm ‘amgylchedd adeiledig’ Sustrans Cymru, a elwir yn Lleoedd Iachach, ac yn cynnwys menywod yn bennaf â graddau mewn dylunio trefol a pheirianneg, a all gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu ‘strydoedd ysgolion’, ac uwchgynllunio teithio llesol.








## Teithiau Di-dor: Hybiau Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae angen i deithio llesol integreiddio i fod yn rhan o gynllunio trafnidiaeth gyffredinol er mwyn i'r rhwydwaith teithio llesol i weithredu'n gyfan gwbl.

Mae TrC wedi dweud wrthym fod y nifer o lefydd i storio beiciau yng ngorsafoedd Cymru a'r Gororau wedi cynyddu oherwydd gwelliannau i orsafoedd ers 2018. Mae 19 o orsafoedd, lle mae gwelliannau eisoes wedi'u cyflawni, wedi cael lle i storio beiciau am y tro cyntaf. Yn 2022, lansiodd TrC fframwaith gwella gorsafoedd newydd i gyflawni gwelliannau pellach, gan ddechrau eu gweithredu yn 2023/24. Maent hefyd yn cyfeirio at welliannau teithio llesol i orsafoedd a ddarperir trwy geisiadau i Gronfa Mynediad i Bawb gwerth £15m.

Wrth wneud hi'n haws i gyfuno teithio llesol â thrafnidiaeth gyhoeddus y bydd hyn yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r dulliau yma. Er enghraifft, mae'r graff isod a ddarparwyd gan TrC yn dangos cynnydd sylweddol ar ôl Tachwedd 2023 yn y nifer o bobl oedd yn archebu lle i feiciau ar drenau, oherwydd cyfleusterau newydd a lansiwyd ar ei ap a gwefan. Cyn hynny, dros y ffôn oedd yr unig ffordd i archebu lle i feic ar drên.

### Archebion Beic WebTIS TrC




Mae buddsoddiad £800mn mewn cerbydau newydd yn golygu bod y capasiti beicio ar wasanaethau trên wedi cynyddu. Roeddem yn arbennig o falch bod trenau tram yn cael eu profi, ym mis Mehefin 2023, gan gynnwys chwe man amlswyddogaethol ar gyfer beiciau, seddi i bobl â symudedd cyfyngedig a dau le i deithwyr cadair olwyn.

Rydym yn croesawu'r cynnydd mewn archebion, ond nodwn fod y cynnydd sylweddol iawn wedi digwydd pan hwyluswyd cadw beiciau. Mae'n awgrymu bod llawer o botensial yn weddill ar ein rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac edrychwn ymlaen at weithio gyda TrC i weld beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus mor syml a hawdd â phosib.

## Cyngor Sir y Fflint



### Dathlu Cynllunio Teithio Llesol Cyngor Sir y Fflint

Nid Cyngor Sir y Fflint dderbyniodd y cyllid mwyaf ar gyfer teithio llesol gan Lywodraeth Cymru, o bell ffordd, ond ym mis Mehefin 2023 cyfarfu'r cyn-Ddirprwy Weinidog Trafnidiaeth, Lee Waters, â'i chynghorwyr a disgyblion o Ysgol Uwchradd Tyddewi i dynnu sylw at lwybr teithio llesol a gwblhawyd yn ddiweddar ar yr A5104. Manteisiodd ar y cyfle i gyhoeddi Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, gwerth £58mn, gan gynnwys y Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn 2023/2024, gyda £1.5 miliwn yn ei ddyrannu i Gyngor Sir y Fflint.

Gyda'r llwybr cyd-ddefnyddio newydd yn "mawr ei angen", ddechreuodd y gwaith 10 wythnos ar y £600,000+ rhwng Sandy Lane i Saltney Ferry ddiwedd mis Ionawr 2023, gan gynnwys gwaith i uwchraddio croesfan Toucan. Blaenoriaethau'r cyngor ar gyfer 2023/2024 oedd llwybr cyd-ddefnyddio newydd yn Neuadd Aston Isaf yng Nglannau Dyfrdwy, a Sandycroft i Frychdyn, ymhlith cynlluniau eraill.

Adroddwyd ar y pryd fod y Cynghorydd Dave Hughes wedi dweud: *"Nod y cynigion hyn, yw gwella'r amodau ar gyfer cerdded a beicio drwy leihau cyflymder traffig, rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr ac ehangu troedffyrdd. Trwy ychwanegu seilwaith gwyrdd, bydd yr ardaloedd hyn yn creu amgylchedd deniadol a diogel a fydd yn annog mwy o bobl i gerdded a beicio yn fwy aml."*

Yn ôl y Pennaeth Steven Richardson, a gynhaliodd Ddiwrnod Beicio Iechyd a Lles ym mis Gorffennaf 2024 i ddathlu'r llwybr newydd: "Mae'r fenter hon yn gam sylweddol tuag at sicrhau bod ein myfyrwyr yn gallu teithio i'r ysgol ac yn ôl yn ddiogel ac rwy'n gyffrous i weld ei effaith gadarnhaol ar gymuned ein hysgol."

# Teithio Llesol i'r Ysgol

**Un o brif ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Teithio Llesol yw cefnogi rhaglenni i annog mwy o blant a theuluoedd i fynd i'r ysgol ar droed, ar sgwter neu ar feic, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau teithio llesol yn y rhan fwyaf o ysgolion.**

Mae teithio llesol i'r ysgol (ATS) yn hanfodol bwysig os yw Llywodraeth Cymru am lwyddo yn ei huchelgais i wneud 'cerdded a beicio'r ffordd fwyaf naturiol i fynd o gwmpas'. Yn anad dim, gan fod y daith i'r ysgol yn aml yn bellter byr sy'n cynnig cyfleoedd cadarn i normaleiddio teithio llesol o oedran ifanc – a'r gweithgarwch yn cael ei groesawu gan blant gan amlaf.

Fodd bynnag, mae lefelau teithio llesol 2023/24 ledled ysgolion yng Nghymru yn dangos diffyg cydgysylltu difrifol ar draws sectorau'r llywodraeth, gyda Llywodraeth Cymru yn methu gwarantu lefelau o weithio rhyngadrannol mwy effeithiol yn ei strategaeth Llwybr Newydd na yn ei Chynllun Cyflawni Teithio Llesol.

Ac eithrio nifer fach o ysgolion arloesol, mae lefelau teithio llesol i'r ysgol yng Nghymru yn parhau i fod yn druenus o isel. Rhaid i ni ailystyried ein blaenoriaethau buddsoddi, gan ganolbwyntio ar feysydd lle mae newid ymddygiad yn fwyaf ymarferol tra hefyd yn ystyried lle mae'r angen mwyaf. Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar ymchwil drylwyr a gwerthusiadau cadarn o weithgareddau i wella ATS a fydd yn helpu i nodi ymyriadau effeithiol a sicrhau enillion mwy trawiadol ar fuddsoddiad.

Mae ein His-grŵp ATS, a gadeirir ar y cyd gan Chris Roberts a Rhiannon Letman-Wade, wedi treulio 2023/24 yn datblygu papur polisi a fydd yn nodi dull mwy strategol o ddarparu teithio llesol i'r ysgol. Bydd y papur yn cael ei gyhoeddi yn 2024/25. Disgwylir iddo gynnwys cynigion ar gyfer dull mwy integredig gyda 'siop un stop' ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol ac ymarferwyr teithio llesol; a fydd yn gosod targedau cadarn a lledaenu arfer da yn fwy effeithiol.


## Cyfraddau Teithio Llesol i'r Ysgol

Mae yna brinder data - yn enwedig data cyfredol - i fesur yn gywir y nifer o blant a phobl ifanc sy'n teithio'n llesol i'r ysgol gynradd. Mae angen i hyn newid fel mater o flaenoriaeth ac mae'n un o'n hargymhellion allweddol.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru fu gostyngiad cyson yn nifer y plant ysgolion cynradd sy'n teithio'n llesol i'r ysgol. Ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd mae'r cyfraddau wedi aros yn statig i raddau helaeth.

Yn seiliedig ar yr arolwg mwyaf cyfredol a gyhoeddwyd, credir bod 48% o blant yn cerdded, olwyno neu'n feicio i'r ysgol gynradd, gyda 34% o bobl ifanc yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol uwchradd.

## Cyfran y plant ysgol yng Nghymru sy'n cerdded i'r ysgol 2013/14 - 2021/22




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

*Gweinyddir y data hwn fel mesur dirprwyol trwy ofyn i rieni am ddull teithio eu plentyn / plant i'r ysgol, ond mae maint y sampl yn rhy fach i lywio cynllunio neu benderfyniadau ar lefel leol.*

Mae casglu data newydd a pharhaus ICC yn dangos ffigyrau ychydig yn fwy iach gydag ychydig dros hanner o blant, sef 53%, yn teithio'n llesol i'r ysgol gynradd yng Nghymru. Daw'r data hwn o Arolwg Dwylo i Fyny Teithio i'r Ysgol 2023 yng Nghymru, sy'n cael ei gynnal bob blwyddyn mewn ysgolion cynradd ledled Cymru.

Cymerodd dros 40,000 o ddisgyblion mewn 270 o ysgolion cynradd ran yn yr arolwg diweddaraf, ond mae cyfraddau teithio llesol mewn ALlau unigol yn amrywio'n sylweddol: o dros 72% yng Nghaerdydd i ychydig dros 23% yng Ngheredigion.

Mae cywirdeb y data hwn yn amheus oherwydd nad yw'n sampl gynrychioliadol eto, gyda chyfradd ymateb isel yn y rhan fwyaf o ALlau.

Mae'r set ddata hon yn bwysig ond ni fydd yn ddibynadwy wrth baentio darlun cenedlaethol o deithio llesol i'r ysgol nes bod pob ysgol ac awdurdod lleol yn cael eu cymell i gymryd rhan yn yr arolwg bob blwyddyn, fel sy'n digwydd yn yr Alban.

Ar lefel uwchradd, mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN) yn arolwg hir sefydlog sy'n mwynhau cyfradd ymateb 94% o ysgolion (bron i 120,000 o ddisgyblion). Canfu'r arolwg diweddaraf yn 2021, a oedd yn cynnwys mwy na 123,000 o ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 i 11, fod 35% o'r ymatebwyr yng Nghymru wedi dweud eu bod yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol.[9] Mae hwn yn ffigwr eithaf sefydlog (35% yn 2021, 35% yn 2019 a 33.8% yn 2017).

## Buddsoddi Mewn Teithio i'r Ysgol

Mae'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar agor i bob awdurdod lleol wneud llwybrau'n fwy diogel - yn enwedig i blant ysgol. Yn 2023/24, dim ond 17 awdurdod lleol wnaeth gais am y grant; dewisodd nifer ohonynt ymgymryd ag astudiaethau dichonoldeb ynghylch 'strydoedd ysgol': sy'n cyfyngu ar fynediad cerbydau o amgylch ysgolion yn ystod oriau brig.




*Wedi eu prosiect strydoedd ysgol, dywedodd Siân Lewis, Pennaeth Ysgol Gynradd Fairfield, ym Mhenarth: "Mae nawr gennym amgylchedd sy'n lot fwy diogel ac iach ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, efo'r drefn newydd a'r ardd law yn gwella'r ardal leol yn sylweddol."*

Bu cynnydd cymedrol mewn hyfforddiant beicio. Cafodd 22,256 o blant hyfforddiant beicio yn 2023/24 ar draws yr holl awdurdodau lleol ac eithrio Gwynedd, yn ôl ffigyrau Llywodraeth Cymru a ddarparwyd i ni. Derbyniodd bron i hanner yr Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol (NSCT) – Lefel 1 (10,621 o blant) a Lefel 2 (9,769 o blant). Cwblhawyd safon Lefel 3 gan lai na 250 o blant mewn pum ALl. Darperir hyfforddiant cydbwyso mewn dau ALl i bron i 880 o blant, a Hyfforddiant Teithio Llesol i 669 o blant ym mhedwar ALl arall.[10]

Gwariodd Sustrans Cymru £190 mil o'u dyraniad grant craidd yn 2023/24 ar Gynllunio Ysgolion Teithio Llesol. Mae hyn wedi caniatáu i becyn cymorth gael ei ddatblygu a'i dreialu gydag ysgolion dethol ledled Cymru. Yn ogystal, mae eu hadroddiad rhaglen Teithiau Llesol am yr un flwyddyn yn dangos canlyniadau cymharol gadarnhaol, gan gyflawni dros 330 o weithgareddau, gyda chyfranogwyr yn cynyddu'r newid yn eu dull teithio ysgol arferol gan 12% tra bod defnydd ceir yn gostwng 14%.

Cafodd Living Streets Cymru £385,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2023/24 i wella cyfraddau cerdded – ymyriad allweddol yw eu rhaglen WOW (Walk Once a Week), dan arweiniad disgyblion. Rhwng Medi 2023 a Mawrth 2024, cafodd dros 1 miliwn o deithiau eu cofnodi gan 32,000 o ddisgyblion ysgolion cynradd. Cwblhaodd 2,039 o ddisgyblion mewn 13 ysgol uwchradd Wythnos Her Cerdded Camau Nesaf (gyda 53 ysgol ychwanegol yng Nghymru yn mewngofnodi o ganlyniad i gyllid ar wahân gan ystod o ALlau).

Yn ôl Living Streets, roedd cynnydd o 22% mewn cerdded ac olwyno (sy'n cynnwys

defnyddio cymhorthion symudedd, fel cadeiriau olwyn neu gerddwyr ag olwynion) yr holl ffordd i'r ysgol mewn ysgolion WOW oedd yn cymryd rhan yn y prosiect, a chynnydd o 52% mewn teithiau llesol i'r ysgol.

Yn yr ysgolion uwchradd Camau Nesaf, dywedodd 43% o ddisgyblion eu bod wedi cerdded mwy oherwydd yr Her Cerdded Camau Nesaf, gyda chynnydd o 14% yn nifer y disgyblion a ddywedodd eu bod fel arfer yn cerdded i'r ysgol a chynnydd o 18% ar gyfer teithio llesol.[11]

Ond mae gwaith Sustrans Cymru a Living Streets Cymru ond yn gallu helpu Cymru gyhyd ag y gallant, gan fod eu modelau ond yn cyrraedd lleiafrif o ysgolion ledled Cymru. Gall digwyddiadau un-tro, fel Wythnos Beicio, gynhyrchu hwb mewn cyfranogiad hefyd, ond mae hyn yn dirwyn i ben yn y pendraw, heb gefnogaeth rhaglenni gweithredu tymor hir hefyd.

Rydym yn edrych ymlaen at weld effaith mentrau ATS eraill yn 2024/25 a gynhaliwyd yn 2023/24 gan gynnwys prosiect peilot ICC ar deithio llesol yn seiliedig ar leoedd, a fydd yn profi a ellir defnyddio'r dull cyfranogol hwn at ATS i nodi, cynhyrchu a gwella gweithgareddau a gweithredu ar lefel leol, gyda ffocws ar ysgolion uwchradd.

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe, mae ICC hefyd wedi bod yn datblygu offeryn i ALlau ac ysgolion amcangyfrif canran y boblogaeth o ddisgyblion sy'n byw o fewn pellteroedd ymarferol i deithio'n llesol i'r ysgol. Mae'r cam cyntaf o ddadansoddi data drwy fanc data SAIL wedi'i gwblhau, gyda'r ail gam i fod i ddechrau erbyn diwedd 2024.

Mae ICC hefyd wedi datblygu a threialu ymgyrch farchnata ddigidol genedlaethol ynghylch teithio llesol i'r ysgol yn 2023/24 i brofi negeseuon a fyddai'n helpu i godi ymwybyddiaeth o'i fanteision ymhlith rhieni a neiniau a theidiau plant oedran ysgol.





# Ysgol Gynradd Howardian ym Mhen-y-lan

## 90% o ddisgyblion yn teithio'n llesol i'r ysgol

Mae Ysgol Gynradd Howardian ym Mhen-y-lan yn cael ei chydnabod ledled Cymru fel arweinydd o ran hyrwyddo arferion trafnidiaeth gynaliadwy ac mae bellach yn rhannu ei adnoddau arfer da gydag ysgolion eraill. Ar ôl cydweithio â'r elusen deithio llesol Living Streets a Chyngor Caerdydd, mae naw o bob deg disgybl bellach yn cerdded, olwyno neu'n beicio i'r ysgol yn rheolaidd.

Dywedodd Helen Thomas, yr Arweinydd Teithio Llesol: *"Ar y dechrau roedd ychydig dros hanner (58%) y plant yn teithio'n llesol i'r ysgol ond erbyn hyn mae'n 90% o ddisgyblion"*. Mae'n golygu bod bron i draean o'r disgyblion (31%) wedi newid y ffordd maen nhw'n teithio i'r ysgol ers 2018.

Cyflawnwyd hyn drwy ennyn diddordeb rhieni a disgyblion o'r meithrin i flwyddyn chwech, dechrau clybiau beicio, sesiynau hyfforddi, a digwyddiadau fel 'Bling Your Ride' a 'Spring Bling'. Newid amlwg oedd cyflwyno rhaglen dracio WOW, sy'n cymell teithio llesol trwy wobrwyo disgyblion â bathodynnau ar gyfer cerdded, olwyno neu feicio i'r ysgol yn rheolaidd. Cefnogwyd hyn trwy gynnwys rhieni drwy gylchlythyrau a diweddariadau cyfryngau cymdeithasol, gyda mapiau, manylion digwyddiadau, cystadlaethau a chyflawniadau'r disgyblion. Roedd sesiynau ar ôl ysgol hefyd yn ddefnyddiol, lle gallai pob aelod o'r teulu gael eu beiciau wedi'u gwasanaethu a'u hatgyweirio am ddim ar y safle.

Yn ôl Helen Thomas: *"Pan fydd disgyblion yn dechrau am y tro cyntaf, rydym yn ceisio eu hannog i deithio'n llesol un neu ddau ddiwrnod yr wythnos a gweithio hyd at bob dydd. Mae'r ysgol wedi rhoi llawer o wybodaeth i rieni a gwarcheidwaid i'w helpu gyda hyn."*

*Ffynhonnell:* Nation Cymru *(Mehefin 2024)*


BLUNT
BLUNT

# Teithio Llesol Bob Dydd

O fewn y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol mae ymrwymiadau allweddol i hyrwyddo teithio llesol bob dydd, gan gynnwys:

- cefnogi mentrau i annog arferion cymudo a theithiau cysylltiedig â gwaith cynaliadwy
- gwella mynediad at feiciau sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys benthyciad beic, cynlluniau llogi beiciau, a chefnogi mynediad at feiciau ail law rhatach
- gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau unedau diogel i storio parcio beiciau i breswylwyr.

Byddwn yn genedl o deithwyr llesol pan fydd pawb sydd eisiau cerdded, olwyno neu feicio â'r gallu i wneud hynny'n hyderus ac yn ddiogel. Rhaid felly chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag teithio'n llesol.

## Ffyrdd Mwy Diogel

Pryder allweddol i lawer o bobl yw diogelwch ffyrdd, yn benodol lle mae cerddwyr, beicwyr a cheir yn cymysgu.

Ym mis Medi 2023, roeddem yn falch o weld Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r terfyn cyflymder statudol ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru – o 30mya i 20mya – ar y ffyrdd hynny sydd â goleuadau stryd ddim mwy na 200 llath ar wahân.

Gyda rhai yn gweld y cynllun yn un sy'n polareiddio, ac yn denu'r ddeiseb fwyaf yn hanes y Senedd, mae'r canlyniadau cynnar yn dangos effaith glir ac i fod yn creu Rhwydwaith Teithio Llesol mwy diogel i Gymru. Mae'r ymgyrch hefyd wedi ennill sawl gwobr gan gynnwys Ymgyrch y Flwyddyn (Mawr) SABRE EMEA UK, Gwobr Gwyddoniaeth Ymddygiadol EMEA, Gwobr Rhagorol CIPR, Teithio, Trafnidiaeth neu Dwristiaeth, a Gwobr PRCA Dare Data a Gwerthuso a'r Gwobr Ymgyrch Sector Cyhoeddus.



**50%**

**Cyflymderau is**

Ers y cyfyngiadau, mae dros hanner gyrwyr Cymru wedi cwtogi eu cyflymder yn ôl adroddiad Trafnidiaeth Cymru (TrC), gyda'r cyfartaledd cyflymder i lawr 4.3mya.

**17%**

**Llai o anafiadau a marwolaethau**

17% o ostyngiad mewn anafiadau ffyrdd difrifol yn 20mya a 30mya rhwng mis Hydref 23 a Mawrth 24, o'i gymharu â'r un chwe mis yn 2022-23.

**20%**

**Llai o ddamweiniau**

Gostyngiad o 20% mewn hawliadau difrod cerbyd, yn ôl un cwmni yswiriant blaenllaw, a ddywedodd bod y cyfyngiadau 20mya yn "amlwg yn cael effaith".

**Arbed arian i'r GIG**

£3.7mn mewn arbedion posib i'r GIG yn ôl amcangyfrifon LTT (Local Transport Today).

## Teithio Llesol i'r Gwaith

Mae cerdded a beicio yn cynhyrchu allyriadau sero a dyma'r ffordd rataf i gyrraedd y gwaith. Ac eto, ar ôl 10 mlynedd o fuddsoddi yng Nghymru, does dim tystiolaeth i awgrymu unrhyw gynnydd sylweddol yn y naill na'r llall, gyda'r niferoedd yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Gellir priodoli rhai o'r rhifau llai i'r ffaith, yn ôl Cyfrifiad 2021, fod dros chwarter ohonom bellach yn gweithio gartref yn bennaf, o'i gymharu ag ychydig dros 5% yng Nghyfrifiad 2011. Fodd bynnag, mae'n parhau bod 56.5% o weithlu Cymru yn teithio i'r gwaith mewn car, o'i gymharu â 44.5% yn Lloegr.

Rhaid dwyn perswâd ar fwy o gyflogwyr teithio llesol, ac arddangos y manteision a ddaw yn ei sgil, fel TUC Cymru a gyhoeddodd ym mis Hydref 2023 ganllaw defnyddiol a chynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo teithio llesol yn y gweithle gan aelod y Bwrdd, Chris Roberts.

Esiampl dda o deithio llesol – a gydnabyddir gan Cycling UK fel cyflogwr cyfeillgar i feicwyr – yw Prifysgol Abertawe, sy'n ymgynghori ac yn monitro ei heffaith. Mae buddsoddiadau allweddol yn cynnwys llwybrau beicio diogel, cyfleusterau storio a newid, wyth gweithfan gyhoeddus ar draws y ddau gampws gan gynnig mynediad i offer am ddim, fel pympiau beiciau, i fyfyrwyr a'r gymuned leol.

> *"Mae'r cyfleusterau newid a storio wedi bod yn drawsnewidiol; gyda chofrestru beiciau am ddim drwy Bike Register yn rhad ac am ddim ar y campws ynghyd â goleuadau a chloeon am ddim i bob beiciwr dan hyfforddiant, rydych chi'n teimlo'n fwy hyderus i barcio'ch beic ar y campws."*
> *Samuel Ross,*
> *Myfyriwr Prifysgol Abertawe*
> *mewn erthygl yn y wasg leol*




*Llun o gyfleusterau storio The Bike Lock.*

Mae ei chynllun llogi beiciau blaenllaw, sydd bellach yn cynnwys 70 o e-feiciau, wedi gweld un rhan o chwech (14%) o deithiau cymudo bob dydd yn cael eu gwneud ar feic erbyn hyn, gan fyfyrwyr a staff. Ers ei lansio ym mis Gorffennaf 2018, mae tanysgrifiadau blynyddol wedi cynyddu bron i 300%, gyda theithiau blynyddol yn cynyddu o 16,000 i dros 45,000.[12]

Yn anffodus, gorfodwyd Nextbike, sy'n gweithredu Cynllun Beicio Santander Abertawe, i gau cynllun tebyg yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ym mis Ionawr 2024, oherwydd lefelau uchel o ddwyn a fandaliaeth. Mae hyn yn siomedig o ystyried mai dyma oedd cynllun mwyaf llwyddiannus y cwmni yn y DU o ran defnydd, gan gofnodi i'r beiciau gael eu llogi dwy filiwn o weithiau. Rydym yn falch o weld bod Cyngor Caerdydd yn gweithio ar gynllun newydd, fydd wedi'i ddiweddaru.

## Parcio a Storio Beiciau

Un o'r ystyriaethau pwysicaf i bobl sy'n meddwl am feicio i'r gwaith yw argaeledd parcio diogel a gwrthdywydd ar gyfer eu beic, fel 'hangars' beiciau, sydd gan amlaf yn gallu storio hyd at chwe beic mewn gofod sydd yn aml at ddefnydd un car.

Chanllawiau Deddf Teithio Llesol yn cyd-fynd yn ddigonol mewn perthynas â faint o storio beiciau sydd angen.

Ar gefn Comisiwn Burns, a sefydlwyd i fynd i'r afael â thagfeydd a materion trafnidiaeth yn ne-ddwyrain Cymru, yn enwedig o amgylch coridor yr M4, darparodd Uned Cyflenwi Burns, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac a adnoddwyd gan TrC, grantiau i awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd i ariannu unedau diogel i storio beiciau.

Aeth y grantiau yma at The Bike Lock, yng Nghaerdydd, sydd â lle ar gyfer tua 50 o feiciau, a Spokesafe yng Nghasnewydd, mewn partneriaeth â The Gap - Wales, sy'n cynnig uned storio diogel 24/7 gyntaf Cymru, gyda lle ar gyfer 38 beic.

Mae'r cyntaf, a dderbyniodd wobr fel Menter Gymdeithasol y Flwyddyn i Gymru yn 2023, wedi gweld busnesau lleol yn cofrestru fel aelodau corfforaethol, yn ogystal â 30 o aelodau unigol. Gyda gofod digwyddiadau hefyd ar y safle, mae pecyn teithio llesol llawn ar gael, sy'n golygu y gall pobl feicio i'w cyfarfod, gan wybod y bydd eu beic yn cael ei storio'n ddiogel yn barod ar gyfer eu siwrne nesaf.

Mae'r olaf, ers agor ym mis Tachwedd 2022, wedi hwyluso dros 12,000 o deithiau beicio, gyda chynnydd sylweddol mewn pryniadau e-feiciau oherwydd argaeledd storio diogel. Mewn arolwg, dywedodd dros hanner y defnyddwyr na fyddent wedi mynd i ganol y

ddinas heb yr hyb (yn bennaf oherwydd dwyn beiciau), gyda 76% yn dweud eu bod yn beicio i'r dref yn amlach o ganlyniad. Yn ddiddorol, mae chwarter y defnyddwyr yn fenywod, gyda phob un ohonynt yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'r hyb.

Mae'r rhain yn ganlyniadau calonogol, gan ddangos defnyddioldeb cyfleusterau o'r fath i gynyddu cyfradd beicio ymhlith beicwyr presennol ond hefyd wrth feithrin hyder ymhlith beicwyr newydd.

## Chwyldroi newid dull teithio trwy e-feiciau

I'r rheiny nad sy'n gorfforol egnïol ar hyn o bryd, mae e-feiciau yn creu chwyldro yng Nghymru, gan gynyddu mynediad i fannau gwyrdd wrth fynd i'r afael â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus wael a thlodi trafnidiaeth.

Dau gynllun llwyddiannus, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ers 2021, yw E-Symud gan Sustrans Cymru a 'See Cycling Differently' gan Pedal Power. Derbyniodd y ddau gyllid ychwanegol yn 2023/24, gan lywio ymyriadau'r dyfodol.

Mae Sustrans Cymru yn cynnig amrywiaeth o e-feiciau gyda chymorth batri, gan gynnwys e-feiciau cargo, ar fenthyciad tymor canolig, yn y Rhyl, Abertawe, Y Drenewydd (gyda chysylltiadau ag Aberystwyth) a'r Barri. Dros y 3 blynedd, gwnaed 708 o fenthyciadau e-feic i 652 o fuddiolwyr, gan arbed 1,504kg o allyriadau carbon deuocsid, gyda buddiolwyr ar gyfartaledd yn nodi 65% yn llai o deithiau fel gyrwyr ceir a 39% yn llai o deithiau fel teithwyr ceir, gyda 7% o gynnydd mewn teithiau wedi'u gwneud ar ffurf teithio llesol.

Profodd Pedal Power lwyddiant tebyg, gan ehangu'r fflyd oedd ar gael i feicwyr hŷn ac anabl i gynnwys e-feiciau addasol fel e-treic llaw, a sesiynau blasu e-feicio am ddim.

Sefydlodd Sally Pierse, perchennog Y Beic Chai o Aberystwyth, ei busnes ar ôl benthyca e-feic cargo drwy brosiect E-Symud Sustrans. Meddai: ""*Yn yr argyfwng hinsawdd heddiw, mae yna wir angen i ni fod yn meddwl am ffyrdd arloesol o weithio ac mae cael beic trydan yn ffordd mor syml o gael busnes mor gynaliadwy. Rwy'n ceisio creu cysylltiadau â sefydliadau cymunedol – dyna'r syniad y tu ôl iddo a dyna sut rwy'n ceisio defnyddio fy meic.*"



*Llun o Sally Pierse, perchennog Y Beic Chai, ar bromenâd Aberystwyth.*

# Cyfathrebu a Newid Ymddygiad

**O fewn y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol mae ymrwymiadau allweddol i ysgogi ac annog mwy o bobl i fanteisio ar deithio llesol, gan gynnwys:**

- **datblygu ymhellach yr ymgyrch gyfathrebu 'Gweithredu ar Hinsawdd Cymru'**
- **cefnogi awdurdodau lleol drwy becyn cymorth hyrwyddo Trafnidiaeth Cymru (TrC) a MapDataCymru**
- **darparu hyfforddiant teithio llesol i bob oed, gan gynnwys trwy Academi Teithio Llesol TrC**
- **datblygu fframwaith monitro a gwerthuso cenedlaethol gan TrC**
- **sefydlu cynlluniau braenaru drwy gydweithio.**

Mae Llywodraeth Cymru am gynyddu y nifer ohonom sy'n teithio'n gynaliadwy, o 32% ar hyn o bryd, rhif amcangyfrifedig, i 45% erbyn 2040, a dyna pam mae newid dull teithio (modal shift) wrth wraidd strategaeth drafnidiaeth Llwybr Newydd.

Yn hyn o beth, roeddem yn falch iawn o fod wedi cael cyfle i weld adroddiad hanfodol, sydd heb eto ei gyhoeddi, gan aelod y Bwrdd, yr Athro Alan Tapp a'i gydweithiwr, yr Athro Adrian Davis: 'Mode Shift from Car Use to Active Travel for Short Trips: How to Create Effective Behaviour Change in Wales. Report for Transport, Strategy and Policy, Welsh Government'.

Mae'n cynnig argymhellion amhrisiadwy ar sut i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, ac mae'r Bwrdd yn cytuno'n llwyr fod angen rhaglenni aml-gydran wedi'u pecynnu ar Gymru yn hytrach nag ymyriadau a wneir ar wahân, fel hyfforddiant beicio neu fapio teithio llesol. Mae newid dull teithio effeithiol yn gofyn am ymagwedd gyfannol sy'n mynd i'r afael â'r holl ffactorau ymddygiadol ar yr un pryd, gan wneud teithio llesol yn hawdd, yn gyfleus ac yn ddiogel. Gall mesurau caled, fel taliadau tagfeydd, leihau'r defnydd o geir fel ymyriadau annibynnol hyd yn oed ond maent yn fwy effeithiol pan wedi'u cyfuno â mesurau polisi eraill.

Mae angen cymhellion ("carrots" (moron)) a rhwystrau ("sticks" (ffyn)) i achosi newid dull teithio sylweddol. Rhaid i ni weld tystiolaeth ledled Cymru sy'n ail-gydbwyso manteision teithio llesol yn erbyn defnydd ceir er mwyn gwneud teithio llesol y prif ddewis. Er bod gwerth i fesurau lleol sy'n hyrwyddo teithio llesol, ni fyddant yn newid ymddygiad yn sylweddol heb rwystrau fel cyfyngiadau parcio neu gymdogaethau traffig isel. Mae gweithredu'r mesurau "ffon" hyn yn heriol oherwydd gwrthwynebiad y cyhoedd, ac felly'n gofyn am ddulliau strategol, cynyddol ac ymgysylltu trylwyr â'r cyhoedd.

Mae hyn yn awgrymu felly yr angen am ddull gweithredu mwy cynhwysfawr na'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd.

Amcangyfrifir bod 63.7mn o deithiau o hyd at dair milltir yn cael eu gyrru bob blwyddyn, yng Nghaerdydd.
*Mynegai Cerdded a Beicio 2023*

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru yw ymgyrch gyhoeddus Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl i gymryd y camau gweithredu angenrheidiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Ym mis Medi 2023, lansiwyd ymgyrch hysbysebu leol genedlaethol i feithrin gwybodaeth am ymddygiad hinsawdd, gan gynnwys teithio. Mae'n gwneud hyn drwy adrodd straeon pwerus, gan ddefnyddio astudiaethau achos teithio llesol fel Pedal Power, cynllun llogi beiciau Prifysgol Abertawe a bws Fflecsi ym Mlaenau Gwent. Mae ymddygiad teithio llesol yn rhan o'r ymgyrch genedlaethol ar draws sianeli teledu, radio, oddi allan i'r cartref, digidol a chymdeithasol.

Mae'r ymgyrch hon yn seiliedig ar ymchwil i helpu i ddeall agweddau, rhwystrau a chymhellion gweithredu ar newid hinsawdd o Gynllun Cymru Sero Net, a gynhaliwyd yn hydref 2022.

Datgelodd fod y rhan fwyaf o bobl yn cydnabod manteision teithio llesol, fel cerdded a beicio, ond bod rhwystrau amrywiol yn bodoli sy'n eu harbed i newid ymddygiad, gan gynnwys y canfyddiad bod eu taith arferol yn rhy hir ar gyfer cerdded neu feicio (dyma oedd ateb un o bob tri), nad oedd yn gyfleus neu nad oeddent yn berchen ar feic.

Felly, mae negeseuon yr ymgyrch wedi'u gwreiddio yn yr hyn y mae pobl yn barod i'w glywed ar hyn o bryd ynghylch camau gweithredu newid hinsawdd. Yna cânt eu rhannu'n 'gofynion' a 'chamau paratoi' yn seiliedig ar barodrwydd pobl i weithredu, o yrru llai a beicio mwy, i newid i gerbyd trydan a hedfan llai.

Gellir dadlau bod y newid ymddygiad a geisir o'r elfen 'Dewisiadau Teithio Gwyrdd' yr ymgyrch ddim yn ddigon uchelgeisiol i gyflawni targedau newid dull teithio a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bu TrC hefyd yn gweithio y tu ôl i'r llenni i ddatblygu pecyn cymorth hyrwyddo i'w ddefnyddio gan awdurdodau lleol (ALlau) i helpu i annog newid ymddygiad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024. Roedd hyn yn cynnwys ymdrechion cydweithredol sylweddol gan CLlLC a Sustrans hefyd.



## Mapio Cywir

Cyhoeddwyd y mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ddiwethaf ym mis Ionawr 2023. Rydym yn nodi cyhoeddiad y Canllawiau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol, fydd yn helpu i sicrhau bod gennym system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon.

Mae rhai pryderon wedi eu mynegi i ni nad oes digon o staff yn MapDataCymru i ddelio â adroddiadau mapio blynyddol yr ALlau i ddiweddaru'r mapiau.




## Monitro a Gwerthuso

Nid yw'n bosibl cymharu cyfraddau teithio llesol yn uniongyrchol rhwng y Ddeddf Teithio Llesol yn pasio (yn 2013) a nawr, gan fod dulliau casglu data a meintiau samplau wedi newid. Mae casglu data cyfredol yn aml yn anghyson a ni ellir ei gyffredinoli (nid yw'n berthnasol y tu hwnt i'r amgylchedd penodol lle digwyddodd yr ymyriad).[13]

Mae pryderon gwirioneddol ynghylch diffyg data a systemau monitro. Ar gyfer yr adroddiad blynyddol hwn yn unig, roedd data anghyson gan awdurdodau lleol ynghylch prosiectau 2022/2023 a data anghyflawn ar gyfer prosiectau 2023/2024.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno o'r diwedd i ddatblygu Arolwg Teithio Cenedlaethol annibynnol, er mwyn deall ymddygiad teithio llesol yn well, megis patrymau teithio pobl wedi'r pandemig neu ba mor aml y mae pobl yn cerdded neu'n beicio o'i gymharu â mathau eraill o drafnidiaeth. Mae hyn i'w groesawu, er mae wedi cymryd amser hir i ddod. Mae Cymru wedi bod heb arolwg ers 2012, gyda Llywodraeth Cymru'n addo ei ddatblygiad ers 2019.

Rydym hefyd yn nodi bod rhai ALlau yn gosod cownteri cerddwyr a beiciau, gyda TrC yn datblygu canllawiau a darparu hyfforddiant ar fonitro a gwerthuso i gynyddu cysondeb wrth gasglu data. Mae TrC hefyd wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio Fframwaith Monitro Teithio Llesol Cenedlaethol sydd i'w gyhoeddi yn 2024/25.

Mae ymdrechion pellach hefyd wedi bod ar droed i wella'r broses o gasglu data, a ariennir gan Ganolfan Arloesi Cymru. Mae Consortiwm Ymchwil ar Deithio Llesol Cymru (ATLAS) yn bartneriaeth sy'n datblygu ymchwil ar draws chwe phrifysgol a fyddai'n cynnig newid dull teithio, ar sail tystiolaeth, i deithio llesol yng Nghymru.



## Wythnos Hinsawdd Cymru

Cynhelir Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd sydd yn ategu i'r ymgyrch newid ymddygiad gyhoeddus, Gweithredu ar Hinsawdd Cymru. Dyma lwyfan ar gyfer trafodaethau a chydweithio ar draws gwahanol sectorau, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, busnesau, sefydliadau amgylcheddol a grwpiau cymunedol. Mae'r ddau yn gydrannau rhyng-gysylltiedig o strategaeth ehangach Cymru i frwydro yn erbyn newid hinsawdd a chyflawni allyriadau sero net erbyn 2050.

Roedd Wythnos Hinsawdd Cymru 2023 yn cynnwys cynhadledd rithiol dros bum diwrnod rhwng 4-8 Rhagfyr i gyd-fynd â COP28. Gwyliodd dros 4,400 o wylwyr y 28 sesiwn, a gynhaliwyd gan 30 o gadeiryddion a 95 o siaradwyr, i gyd yn gyfrifol am archwilio'r cwestiwn:"Sut ydyn ni'n mynd i'r afael â newid hinsawdd mewn ffordd deg?" – gydag amrywiaeth o sesiynau yn cynnwys gwahanol brosiectau a chynlluniau teithio llesol ledled Cymru.

Roedd yr wythnos yn cyd-daro ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y 'Fframwaith Pontio Cyfiawn' newydd ac yn archwilio effaith anghyfartal newid hinsawdd ar wahanol bobl, grwpiau a lleoedd, ac yn archwilio sut y gallwn sicrhau bod manteision sy'n gysylltiedig â pholisïau hinsawdd, gan gynnwys teithio llesol, yn cael eu dosbarthu'n deg ar draws cymdeithas.

# Ein Bwrdd Teithio Llesol

**Yn 2023 diwygiwyd y Bwrdd Teithio Llesol i ddarparu her a chraffu annibynnol ar waith Llywodraeth Cymru a'r holl gyrff hynny sy'n cyflenwi teithio llesol yng Nghymru. Roedd y diwygiad hwn mewn ymateb uniongyrchol i argymhelliad gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol.**

Craidd y Bwrdd annibynnol yw'r Cadeirydd (Dr Dafydd Trystan) a rhwng chwech ac wyth aelod annibynnol. Yn dilyn proses recriwtio eang, penodwyd y canlynol:

- Gwenda Owen
- Shayoni Lynn
- Richard Brunstrom
- Roisin Willmott
- Rhiannon Letman-Wade (Dirprwy Gadeirydd)
- Kirsty James
- Alan Tapp
- Chris Roberts (enwebai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol).

Fel partneriaid cyflawni allweddol, cynrychiolir yr awdurdodau lleol ar y Bwrdd ar sail ranbarthol:

- CBS Merthyr Tudful (Alun Evans)
- Cyngor Sir Ynys Môn (Huw Percy)
- Cyngor Sir y Fflint (Richard Flood)
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot (David Griffiths)
- Dinas a Sir Abertawe (Stuart Davies)
- Cyngor Sir Ceredigion (Ann Elias)

ynghyd â chynrychiolydd enwebedig o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Kaarina Ruta).

Penodir tri chynrychiolydd i'r Bwrdd o blith bartneriaid cyflawni allweddol – Trafnidiaeth Cymru (Geoff Ogden a Matthew Gilbert); Iechyd Cyhoeddus Cymru (Julie Bishop a Paul Pilkington); a Transform Cymru, gyda Sustrans Cymru (Christine Boston) a Living Streets Cymru (Ruth Billingham) yn rhannu'r rôl honno, ar ran y Trydydd Sector.

Yn ystod 2023/24 darparwyd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd gan Gomisiwn Dylunio Cymru.

Cyfarfu'r Bwrdd chwe gwaith yn ystod 2023/24 a chraffu ar:

- Llywodraeth Cymru (Cynllun Cyflawni Teithio Llesol; Mapiau Teithio Llesol a phrosesau)
- Trafnidiaeth Cymru (Cronfa Teithio Llesol)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (Teithio Llesol i'r Ysgol)
- Sustrans Cymru (ei waith a ariennir yn gyhoeddus).

Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i gael trafodaeth agored, gan gynnwys asesiad cadarn o'r deunyddiau ger bron yn ôl eu eglurder a pherthnasedd, effeithiolrwydd gwariant a phenodoldeb targedau perfformiad. Er enghraifft, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru egluro'n well eu diffiniad o 'bartner dibynadwy', darparu gwybodaeth fanwl am y fethodoleg tu ôl i benderfyniadau grant a bod yn fwy atebol a thryloyw yn eu prosesau gwerthuso eu hunain. Yn dilyn pob sesiwn graffu, lle bo'n berthnasol, cynigiwyd cyngor i sefydliadau, a gyhoeddwyd ynghyd ag unrhyw ymateb.

Cynhaliodd y Bwrdd sesiynau trafodol hefyd ar Arf Blaenoriaethu Trafnidiaeth Cymru; arweinyddiaeth a galluoedd awdurdodau lleol yng Nghymru; a gwaith yr heddlu ar gefnogi teithio llesol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a dwyn beiciau. Arweiniodd yr olaf at wahoddiad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd gyfrannu at ymgynghoriad newydd ar Strategaeth Diogelwch Ffyrdd.

Cyfarfu'r Is-grŵp Teithio Llesol i'r Ysgol (ATS) yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn dan Gyd-gadeiryddiaeth Rhiannon Letman-Wade a Chris Roberts. Ar ôl adolygu'r rhwystrau a'r heriau ynghlwm â theithio llesol i'r ysgol trwy gydol 2023/24, penderfynodd y Grŵp nodi dull gweithredu newydd a gwell cydlynu i hyrwyddo teithio i'r ysgol mewn strategaeth newydd sbon, i'w chyhoeddi yn 2024/25.

Cytunodd y Bwrdd hefyd ar raglen o ymweliadau ag awdurdodau lleol, gyda'r ymweliad cyntaf o'i fath yn Saundersfoot yn Sir Benfro i drafod cynlluniau teithio llesol o amgylch y dref a'r heriau sy'n wynebu Cyngor Sir Penfro wrth ddelio â thirlithriadau ar y llwybr o'r dref ar hyd yr arfordir.

Penderfynodd y Bwrdd hefyd adfer yr Is-grŵp Teithio Llesol Cynhwysol yn ystod 2024/25, oherwydd gwaith blaenorol Sustrans ar rwystrau ac yn unol ag Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024-2028. Yn anffodus, nid oedd yn bosib i'r grŵp gwrdd yn 2023/24 oherwydd diffyg cymorth ysgrifenyddol.

Am fwy o wybodaeth am waith y Bwrdd, ewch i'w tudalen ar wefan Llywodraeth Cymru.



*Aelodau y Bwrdd:*
*Matthew Gilbert (TrC); Paul Pilkington (ICC); Rhiannon Letman-Wade (Dirprwy Gadeirydd); Shayoni Lynn (Annibynnol); Tom Wharf (TrC); Dr Dafydd Trystan (Cadeirydd); Chris Roberts (Annibynnol); Gwenda Owen (Annibynnol); Patrick Williams (Sustrans); and Roisin Willmott (Annibynnol).*

| **Cyfarfodydd** |
|---|
| 21 Mawrth 2024 |
| 8 Chwefror 2024 |
| 17 Tachwedd 2023 |
| 21 Medi 2023 |
| 27 Gorffennaf 2023 |
| 26 Mai 2023 |

# Argymhellion

**Mae pocedi o arfer da a hanes llwyddiant trwy gydol 2023-24, ac mae'r adroddiad hwn yn ceisio dangos yr hyn sy'n gweithio'n dda a sut y gallwn ni oll efelychu ymyriadau teithio llesol da ledled Cymru.**

Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw lefelau teithio llesol, ar y cyfan, yn cynyddu. Gyda buddsoddiad digonol yn ei le, rydym yn gwneud nifer o argymhellion penodol i bwyso a mesur, fel cenedl, a newid, lle bo'n briodol, yr hyn yr ydym yn ei wneud gyda'r cyllid a ddarperir.

## Argymhellion

### 1. Gosod Amcanion C-SMART (CAMPUS)

Rhaid annog pob sefydliad sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i symud i ffwrdd o brosiectau sy'n cael eu gyrru gan fewnbwn, gan ailffocysu pob ymyriad ar y canlyniadau maent yn dymuno eu cyflawni, gan ddatblygu adroddiad effaith ar gynnydd yn erbyn eu hamcanion 'C-SMART' CAMPUS (CAMPUS - Cyraeddadwy • Amser wedi'i Bennu • Mesuradwy • Penodol • Uchelgeisiol • Synhwyrol) (C-SMART- Specific • Meaurable • Action Oriented • Realistic • Timely/Tangible • Challenging). Mae hyn yn gofyn am ddata ar newid dull teithio, nifer y cilomedrau o isadeiledd sy'n newydd neu wedi'i wella, er mwyn caniatáu gwerthuso ystyrlon gall nodi ymyriadau gwell i ddarparu lefelau uwch o deithio llesol. Dylai pob cyllid gynnwys adnoddau ar gyfer monitro.

### 2. Gwelliant radical mewn gwaith ymchwil a chasglu data

Rhaid i Gymru sicrhau gwelliant radical mewn gwaith ymchwil a chasglu data fel y gellir casglu ffigyrau dibynadwy a phenodol, gan gynnwys gwybodaeth ansoddol sy'n dangos manteision bywyd go iawn. Dylid ymgorffori gwyddor ymddygiad ar draws pob ymchwil ac ymyriad, gan ddatblygu arbrofi a mewnwelediadau a allai gyfrannu at ymyriadau sydd wedi'u targedu'n well a fydd yn ategu at waith eraill.

### 3. Goresgyn materion capasiti

Ledled Cymru, mae yna brinder hyfforddiant a sgiliau o ran hyrwyddo a darparu teithio llesol ar lefel awdurdod lleol, sy'n profi'n gyfyngiad allweddol ar gynnydd ystyrlon. Mae angen cynllun datblygu sgiliau ar frys i fynd i'r afael â'r bylchau yma o dan arweiniad arbenigedd canolog ar deithio llesol. Gall hyn ddarparu cymorth a hyfforddiant yn seiliedig ar dystoliaeth i gyflawni newid dull teithio llwyddiannus. Dylai'r estyniad diweddar i gyfnod tair blynedd o bum mlynedd ar gyfer adolygiadau Map Rhwydwaith Teithio Llesol barhau.

**4. Ail-ddychmygu cyllid teithio llesol**

Er ein bod wedi cynyddu'r cyllid yn sylweddol ar gyfer teithio llesol yng Nghymru, mae angen ail-gynllunio ein model dosbarthu, gan nad ydym yn gweld yr effaith yn cyd-fynd â'r arian a ddarparwyd. Tra'n parhau i fuddsoddi mewn prosiectau teithio llesol mewn awdurdodau lleol ledled y wlad, rydym yn galw am gyfran sylweddol i ganolbwyntio ar un neu ddwy dref brawf, neu ardaloedd mewn dinasoedd yn seiliedig ar broses tendro. Gallai hyn gwblhau'r rhwydwaith teithio llesol yn yr ardal, gan gynnwys integreiddio'n llawn â gwasanaethau iechyd ac addysg, a chyfuno buddsoddiad isadeiledd gyda newid ymddygiad a gweithgareddau hyrwyddo.

**5. Blaenoriaethu teithio llesol a lleihau'r defnydd o geir**

Gyda 20% o aelwydydd heb fynediad at gar, a theithio llesol wedi'i ddangos i hybu gwariant manwerthu lleol gan 30%, rhaid i'r genedl arwain drwy esiampl a blaenoriaethu buddsoddiad trafnidiaeth fydd yn cynyddu cerdded, olwyno a beicio ar gyfer teithiau byr bob dydd. Bydd blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr wrth ddylunio trafnidiaeth, a chynyddu diogelwch cerddwyr drwy, er enghraifft, croesfannau sebra ar yr ochr, yn lleihau'r defnydd o geir preifat ac yn helpu i greu system drafnidiaeth wirioneddol integredig a fforddiadwy ar hyd a lled Cymru.

**6. Creu amgylchedd cefnogol lle gall mwy o blant gerdded, olwyno a beicio i'r ysgol**

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy integredig o gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i hyrwyddo a galluogi teithio llesol i'r ysgol, gan ddarparu 'siop un stop' lle gall cymunedau ysgolion gael mynediad at ymyriadau sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol eu cymunedau lleol.

**7. Ailwampio casglu data mewn ysgolion**

Rhaid ailwampio casglu data mewn ysgolion i fod yn gydlynol ac yn gyson gyda sefydliadau allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Ysgolion Iach ac Eco Ysgolion, i gymryd camau i gynyddu cyfranogiad ysgolion yn yr Arolwg Dwylo i Fyny Teithio i'r Ysgol genedlaethol. Dylai hyn gael ei ategu gan ESTYN wrth ymestyn eu hasesiadau i gynnwys data teithio llesol.

**8. Prif ffrydio ymagwedd traws-lywodraeth a thraws-sector**

Er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni'n effeithiol, dylai teithio llesol gael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru ar draws ei holl adrannau ac i'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau teithio llesol yn diwallu anghenion y gymuned drwy ymgynghori wyneb yn wyneb cynnar a chynhwysfawr â thrigolion, gan feithrin mwy o gyfranogiad ac ymgysylltu cymunedol i sicrhau llwyddiant eu prosiectau.

**9. Diogelu drwy ganllawiau dylunio**

Mae angen i ni wreiddio 'creu lleoedd' wrth galon ein canllawiau dylunio ar gyfer cymunedau a dylai'r canllawiau sydd wedi'u hanelu at gynyddu diogelwch eiddo ystyried yn llawn y manteision i gymunedau o gynyddu teithio llesol a sicrhau nad yw ei ddarpariaethau'n rhwystro cerdded, olwyno a beicio ar gyfer teithiau bob dydd.





## Ôlnodiadau

1 Helping people through the cost-of-living crisis and growing our economy: the role of walking, wheeling and cycling, Sustrans (2022).

2 Canllawiau Deddf Teithio Llesol, Gorffennaf 2021, Llywodraeth Cymru (2021) t. 28.

3 Ffigwr Lloegr wedi'i gyflenwi gan yr Adran Drafnidiaeth; y ffynhonnell fan hyn ar gyfer ffigwr Llundain; a'r ffynhonnell fan hyn ar gyfer ffigwr yr Alban, er i Drafnidiaeth yr Alban gyhoeddi yn 2022 gynnydd ariannol sy'n gyfystyr â £58 y pen.

4 A mixed bag of national cycling strategies in the UK, B chusta, Ffederasiwn Seiclwyr Ewrop (19 Gorffennaf 2023).

5 New 8km stretch of A465 Heads of the Valleys road is £100m over budget and three years late, A Lewis & M Shipton, Wales Online (20 Chwefror 2020).

6 Adroddiad 'Ffyrdd Gwyrdd' gan Bwyllgor Hinsawdd ac Amgylchedd Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Hydref 2023.

7 Yr holl ffigyrau wedi eu darparu gan Lywodraeth Cymru.

8 Cycling and walking routes: Some councils 'not interested' in cash, D Deans, BBC Wales Online (13 Mai 2022).

9 Page N., Angel, L., Ogada, E., Young H., Murphy S. (2023) Student Health and Wellbeing in Wales: Report of the 2021/22 Health Behaviour in School-aged Children Survey and School Health Research Network Student Health and Wellbeing Survey; Prifysgol Caerdydd tud. 62-64.

10 Mae'r holl ffigyrau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

11 Mae'r holl ffigyrau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

12 Swansea University's bike hire scheme sees a near 300% increase in users, Swansea Bay News (18 Mai 2024).

13 Gweler 'Ymyriadau i gynyddu Teithio Llesol', Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Delweddau

Yr holl ddelweddau wedi dod o Becyn Hyrwyddo Trafnidiaeth Cymru ag eithrio y delweddau gan:

Bwrdd Teithio Llesol, tudalennau 2 & 33

Sustrans Cymru, tudalennau 20 & 21

The Bike Lock, tudalen 26

Y Beic Chai,
Anthony Pugh Photography, tudalen 27

Llywodraeth Cymru, tudalennau 17, 22 & 23

Ar gyfer pob ymholiad,
cysylltwch â:

Bwrdd Teithio Llesol
Trafnidiaeth
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**teithiollesol@llyw.cymru**